

Ry'n ni wedi cadw ffeliâu a elwir yn cwcis ar eich dyfais. Mae'r cwcis hyn:

- yn hanfodol i'r safle weithio

Byddem hefyd yn hoffi cadw rhai cwcis i'n helpu ni:

- i wella'n gwefan drwy gasglu ac adrodd gwybodaeth ar sut yr ydych yn defnyddio'r safle
- i deilwra cyfathrebu

[Derbyn cwcis](#)

[Newid gosodiadau cwcis](#)



English



» [Dilynwch y cyngor ar gyfer y coronafeirws \(COVID-19\)](#)

[Hafan](#) > [Coronafeirws \(COVID-19\)](#) > [Addysg a gofal plant: coronafeirws](#) > [Ysgolion: coronafeirws](#) >

Cynlluniau ar gyfer dychwelyd i'r ysgol fis Medi: coronafeirws

CANLLAWIAU

Cynlluniau ar gyfer dychwelyd i'r ysgol fis Medi: coronafeirws

Newidiadau i ddysgu ac addysgu mewn ysgolion o Medi

Rhan o: [Ysgolion: coronafeirws](#)

Cyhoeddwyd gyntaf: 14 Gorffennaf 2020

Diweddarwyd ddiwethaf: 14 Gorffennaf 2020

Cynnwys

[Beth yw'r cynlluniau ar gyfer ysgolion fis Medi?](#)

[Beth yw sail y penderfyniad hwn?](#)

[Ar ba ddyddiad fydd tymor yr hydref yn cychwyn?](#)

[Mae pryderon y bydd rhai disgyblion o bosib wedi syrthio ar ei hôl hi gyda'u dysgu. Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i roi sylw i hyn o fis Medi ymlaen?](#)

Beth yw'r cynlluniau ar gyfer ysgolion fis Medi?

Cadarnhaodd y Gweinidog Addysg ar 9 Gorffennaf y bydd pob disgybl yn medru dychwelyd i'r ysgol fis Medi. Gellir [gweld copi o gyhoeddiad y Gweinidog](#).

Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi [canllawiau gweithredol](#) a [chanllawiau dysgu diwygiedig](#) yr wythnos nesaf i baratoi ar gyfer mis Hydref.

Beth yw sail y penderfyniad hwn?

Mae Grŵp Cyngchori Technegol Cymru, sy'n darparu cyngor gwyddonol a thechnegol i'r Llywodraeth mewn argyfwng, yn argymhell y dylai ysgolion *"gynllunio i agor ym mis Medi, gyda 100% o ddisgyblion yn gorfforol bresennol ar safleoedd ysgolion, cyn belled â bod lefelau COVID-19 yn parhau i ostwng yn gyson yn y gymuned."* Mae'r [papur sy'n cynnwys y cyngor hwn wedi cael ei gyhoeddi ac mae i'w weld](#).

Ar ba ddyddiad fydd tymor yr hydref yn cychwyn?

Bydd tymor yr hydref yn cychwyn ar 1 Medi ac fe ddylai ysgolion sy'n medru rhoi lle i'r disgyblion i gyd o ddechrau'r tymor wneud hynny. Fodd bynnag, bydd cyfnod o hyblygrwydd i gydnabod y bydd ysgolion o bosib am ganolbwyntio ar grwpiau mewn blynyddoedd â blaenoriaeth, fel y rhai sy'n dechrau mewn ysgolion uwchradd, y rhai sy'n sefyll arholiadau yr haf nesaf neu'r rhai sydd yn y dosbarth derbyn. Bydd hyn hefyd yn rhoi amser, hyd at bythefnos, ar gyfer unrhyw waith cynllunio ac aildrefnu. Bydd ysgolion yn gweithio ar eu cynlluniau ac yn rhoi gwybod i rieni, gofawyr a disgyblion am eu trefniadau.

Mae pryderon y bydd rhai disgyblion o bosib wedi syrthio ar ei hôl hi gyda'u dysgu. Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i roi sylw i hyn o fis Medi ymlaen?

Rydym yn deall y bydd dychwelyd i drefn yn parhau i fod yn heriol i rai dysgwyr, ac mae'n bosibl y bydd y cyfnod clo wedi cael effaith sylweddol ar eu dysgu a'u cysylltiad ag addysg yn yr ysgol. Mae'r amser y bydd dysgwyr yn ei dreulio yn yr ysgol yn ystod mis Mehefin/Gorffennaf 2020 yn canolbwyntio'n benodol ar les a pharatoi i dychwelyd i ddysgu yn hydref 2020. Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu £29 miliwn i ysgolion i hybu'r cymorth i ddysgwyr ar adegau hanfodol bwysig yn eu haddysg o fis Medi ymlaen.

Bydd yr hyn sy'n cyfateb i 600 o athrawon ychwanegol a 300 o gynorthwywyr dysgu yn cael eu recriwtio drwy gydol y flwyddyn ysgol nesaf, gan dargedu cymorth ychwanegol at Flynyddoedd 11, 12 ac 13, yn ogystal â dysgwyr difreintiedig ac agored i niwed o bob oed. Bydd hyn yn helpu dysgwyr sy'n sefyll arholiadau Safon Uwch a TGAU yn 2021 a'r rhai sydd wedi'u heffeithio fwyaf. Bydd y camau gweithredu hyn yn bwysig tu hwnt i ddyfodol y bobl ifanc yma.

Bydd adnoddau dysgu proffesiynol yn cael eu darparu i gefnogi'r athrawon newydd a'r rhai sydd eisoes yn eu swyddi, wrth baratoi ar gyfer mis Medi. Bydd staff yn cael eu recriwtio ar gontract blwyddyn o dymor penodol a disgyblir iddynt symud i swyddogaethau addysgol yn y flwyddyn academaidd nesaf. Gallai'r pecyn cymorth, sy'n cael ei ddarparu ar lefel yr ysgol, gynnwys cymorth hyfforddi ychwanegol, rhaglenni dysgu personol ac amser ac adnoddau ychwanegol ar gyfer disgyblion mewn blynyddoedd sy'n sefyll arholiadau. Bydd amrywiol ddulliau dysgu yn berthnasol, gan gynnwys dysgu cyfunol.

Cyhoeddwyd gyntaf

14 Gorffennaf 2020

Rhan o

[Ysgolion: coronafeirws](#)

Diweddarwyd ddiwethaf

14 Gorffennaf 2020

[Adrodd am unrhyw beth sy'n bod gyda'r dudalen hon](#)

[← Rhannu'r dudalen hon](#)

[↗ Nôl i dop y dudalen](#)

Cysylltu â ni Hygyrchedd Datganiad hawffraint Cwcis Preifatrwydd Telerau ac amodau

